

	EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD YNYS MÔN 2026
	Cystadleuaeth 97– Deuawd neu Driawd Cerdd Dant 19-25 oed
	Gair o Gysur, Sian Owen

Rho dy droed yn llaw'r angylion.
 Heno, yf o ffynnon dagrau;
 cod yfory o'r cysgodion.
 Ffo rhag dyffryn dy bryderon;
 deuparth dringo ydyw dechrau
 rhoi dy droed yn llaw'r angylion.

Hyd y llethrau, hud atgofion:
 na ferwina rhwng hen furiau;
 cod yfory o'u cysgodion
 ar dy daith a dilyn afon
 dy obeithion. Ar well llwybrau
 rho dy droed: yn llaw'r angylion
 cei dy dwys i'r entrychion.

Wedi 'mochel rhag cawodau,
 cod. Yfory, o'r cysgodion,
 gwêl y wawr – haul ar gopaon.
 Eira ddoe rydd hen raeadrau.
 Cod dy droed nawr o'r cysgodion,
 rho yfory yn llaw'r angylion.